**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 18 Mawrth 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R Francis-Davies | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | C E Lloyd | A Pugh |
| J A Raynor | A H Stevens | M Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): L S Gibbard

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): -

---

## 90. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiad(au) canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd C E Lloyd gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 97 "Adolygiad blynyddol o daliadau (gwasanaethau cymdeithasol) 2020/21" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros, siarad â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol.

2) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 98 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol.

3) Datganodd y Cynghorydd A S Lewis gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 98 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a thynnodd yn ôl o'r cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

4) Datganodd y Cynghorydd E J King gysylltiad personol â chofnod 100 “Trosglwyddo Asedau Cymunedol – Fferm Gymunedol Abertawe”.

## 91. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2021.

## 92. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 93. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 94. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 95. Eitem Frys

Nododd Arweinydd y Cyngor, yn unol â pharagraff 100B (4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ei fod yn meddwl y dylid trafod "Ardrethi Busnes (£500,000 ac o dan) - Cynllun Cymorth Ardrethi Dros Dro (Cymru) 2021/2022” yn y cyfarfod fel mater brys.

## 96. Ardrethi Busnes (£500,000 ac o dan) - Cynllun Cymorth Ardrethi Dros Dro (Cymru) 2021/2022

**Rhesymau dros y mater brys:** Cyflwynodd Lywodraeth Cymru'r Cynllun Cymorth Ardrethi Dros Dro hwn yn ddiweddar ac mae angen ei fabwysiadu cyn dechrau Blwyddyn Ariannol 2021/22 er mwyn rhoi amser i'r swyddogion wneud y trefniadau bilio angenrheidiol fel y gellir cyflwyno biliau net yn brydlon cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ac yn ceisio ystyriaeth i fabwysiadu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch dros dro sy'n ymwneud ag Ardrethi Busnes, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi manylion y cynllun fel y'u nodir yn yr adroddiad.

2) Mabwysiadu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi a'r broses ymgeisio fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, ar gyfer 2021/22.

## 97. Adolygiad blynyddol o daliadau (gwasanaethau cymdeithasol) 2020/21.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol adroddiad a oedd yn adolygu Polisi Codi Tâl y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Caiff canfyddiadau'r adolygiad blynyddol o newidiadau eu derbyn, ac ni fydd unrhyw daliadau gwasanaeth newydd yn cael eu codi yn 2021/22.

2) Bydd cynnydd chwyddiannol o 1.75% yn cael ei gymhwyso i'r holl daliadau gwasanaethau cymdeithasol a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2021/22.

3) Mae'r taliadau am wasanaethau larwm cymunedol yn aros yr un fath, ac maent i'w hystyried fel rhan o adolygiad comisiynu corfforaethol.

4) Bydd y rhestr o daliadau'r gwasanaethau cymdeithasol yn berthnasol o 1 Ebrill 2021, ar gyfer y flwyddyn 2021/22.

5) Cytunir ar y rhestr newydd o daliadau ar gyfer 2021/22 fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad, a chânt eu hatodi wrth Bolisi Codi Tâl (Gwasanaethau Cymdeithasol) y cyngor.

## 98. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Gellifedw | Scott Williams |
| 2) | Ysgol Gynradd Gendros | Peter Meehan |
| 3) | Ysgol Gynradd Gorseinon | Y Cyng. Kelly Roberts |
| 4) | Ysgol Gynradd Treforys | Y Cyng. Yvonne Jardine |
| 5) | Ysgol Gynradd Treforys | Y Cyng. Andrea Lewis |
| 6) | Ysgol Gynradd Pontarddulais | Y Cyng. Kevin Griffiths |
| 7) | Ysgol Pen-y-Bryn | Edward Alan Pitt |
| 8) | Ysgol Pen-y-Bryn | Raymond Brown |
| 9) | Ysgol Gyfun Penyrheol | Peter Wilcox |

## 99. Cynyddu nifer y lleoedd a gynlluniwyd ar gyfer Ysgol Pen-y-bryn

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar gynnig i gynyddu'r lleoedd arfaethedig yn Ysgol Pen-y-bryn o fis Ionawr 2022.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Rhoddir cymeradwyaeth i ymgynghori ar gynyddu'r lleoedd arfaethedig yn Ysgol Pen-y-bryn o fis Ionawr 2022.

2) Ystyried yr ymatebion yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## 100. Trosglwyddo Asedau Cymunedol - Fferm Gymunedol Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i roi prydles 35 mlynedd newydd i Fferm Gymunedol Abertawe ar rent rhad sy'n llai na'r gwerth gorau.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Caiff prydles 35 mlynedd newydd ei rhoi ar rent rhad i Fferm Gymunedol Abertawe a bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd yn cyd-drafod telerau manwl y brydles arfaethedig/ cytundeb priodol ac yn penderfynu arnynt, ac y cyfarwyddo'r Prif Swyddog Cyfreithiol i gwblhau'r dogfennau cyfreithiol.

## 101. Rhaglen Grant Cyfleusterau I'r Anabl A Grant Gwella 2021/22.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn darparu manylion y Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella ac yn ceisio cymeradwyaeth i gynnwys cynlluniau yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol, "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf", i neilltuo ac awdurdodi cynlluniau y unol â'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Caiff y Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella, fel y'i nodwyd yn yr adroddiad, gan gynnwys ei goblygiadau ariannol, ei chymeradwyo a'i chynnwys yng Nghyllideb Gyfalaf 2021/22.

## 102. Dyraniad Cyfalaf i Asedau Isadeiledd Priffyrdd 2021-22.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn cadarnhau'r Rhaglen Waith Gyfalaf ar gyfer asedau'r isadeiledd priffyrdd.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Caiff y dyraniadau dangosol arfaethedig, ynghyd â'r Goblygiadau Ariannol a nodir yn Atodiad A yr adroddiad, eu cymeradwyo a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

2) Caiff awdurdod ei ddirprwyo i Bennaeth y Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant gyda chydsyniad Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd i flaenoriaethu, cwblhau a chlustnodi arian i'r cynlluniau priodol yn unol â'r ymagwedd flaenoriaethu a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

## 103. Adroddiad Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf 2021/22.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar y cynlluniau i'w hariannu drwy'r Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Caiff cynlluniau cynnal a chadw cyfalaf arfaethedig a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad eu cymeradwyo.

2) Caiff y cynlluniau a'u goblygiadau ariannol fel a nodwyd yn Atodiad C yr adroddiad eu hawdurdodi a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

## 104. Adolygiad Lleoedd mewn ymateb i Mae Bywydau Du o Bwys

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r adolygiad a gomisiynwyd yn flaenorol o ganlyniad i'r cynnig Mae Bywydau Du o Bwys i'r cyngor a gofynnodd am gymeradwyaeth i'r argymhellion dilynol.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Caiff canfyddiadau'r adolygiad eu nodi ac awdurdodir Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Cabinet perthnasol ac mewn cydweithrediad â hwy, i:

   a) Gomisiynu dehongliad lle nodir bod gan enw'r lle gysylltiadau ag ecsbloetiaeth neu'r fasnach gaethwasiaeth, drwy QR neu offer gwybodaeth eraill.

   b) Cyfarwyddo'r ymchwil pellach sy'n ofynnol gan y Gweithgor wrth archwilio gwybodaeth a chyfeiriadau, gan gynnwys deunydd newydd wrth iddo gael ei gyflwyno, yn ogystal â chynigion newydd i'w cynnwys a geir drwy gydweithio ac ymgynghori â'r gymuned a'u cynrychiolwyr.

   c) Cymeradwyo'r cam cadarnhaol o wahodd ymatebion sy'n adlewyrchu'n holl gymunedau ac unigolion o bob cefndir a gallu, gan gynnwys hanes pobl dduon, lgbtq+, amrywiaeth diwylliannol ac ethnig, mewn comisiynau yn y dyfodol ar gyfer strategaeth gelfyddydau , digwyddiadau a rhaglenni creadigol, placiau glas a gweithgareddau diwylliannol eraill y ddinas.

   d) Llunio ac adnewyddu'n barhaus y rhestr o enwau a gynhwysir yn Atodiad B i'r adroddiad, ar y cyd â chynrychiolwyr cymunedol, i'w

chyhoeddi a'i diweddaru, fel offeryn cyfeirio ar gyfer cyfleoedd cyfredol ac yn y dyfodol o ran enwi cyrchfannau / strydoedd.

2) Dirprwyo penderfyniadau yn y dyfodol sy'n ymwneud ag enwi cyrchfannau / strydoedd i Benaethiaid Gwasanaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, Gwasanaethau Diwylliannol a Phriffyrdd a Thrafnidiaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau perthnasol y Cabinet.

## 105. Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe, sy'n ddogfen weithredol sy'n nodi'r camau y mae angen i'r cyngor eu cymryd i gefnogi adferiad yr economi leol o bandemig COVID-19.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe.

## 106. Gwella Ysgolion - Trefniadau Rhanbarthol yn y Dyfodol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn gofyn am ganiatâd i ohirio tynnu'n ôl o'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (ERW) rhwng 31 Mawrth 2021 a 31 Mawrth 2021.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Mae'r Cabinet yn nodi, ers cyflwyno hysbysiad i dynnu'n ôl o ERW, nad yw'r gwaith sy'n ymwneud ag ôl troed a model newydd ar gyfer gwella ysgolion yn rhanbarthol wedi'i ddatblygu i alluogi trosglwyddo llyfn i fodel newydd erbyn 31 Mawrth 2021.

2) Mae'r Cabinet yn nodi ei bod yn debygol y bydd angen newidiadau cyfreithiol i drefniadau llywodraethu ar unrhyw fodel newydd ar gyfer gwella ysgolion na fydd ar waith erbyn 31 Mawrth 2021.

3) Felly, mae'r Cabinet yn cytuno i dynnu'n ôl yr hysbysiad i dynnu'n ôl a gyflwynwyd ar 20 Mawrth 2020 ac aros yn ERW tan 31 Awst 2021.

4) Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Addysg a'r Prif Swyddog Cyfreithiol ymrwymo i unrhyw Weithred Amrywio sy'n angenrheidiol i sicrhau unrhyw newid i drefniadau tynnu'n ôl neu unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol eraill a gymeradwywyd gan y Cydbwyllgor.

## 107. Ardrethi Busnes (Dros £500,000) - cynllun cymorth ardrethi dros dro (Cymru) 2020/21

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ac yn gofyn am ystyriaeth ar gyfer mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Ychwanegol i fusnesau Hamdden a Lletygarwch (EHLRRS) dros

dro newydd yn ymwneud â'r Ardrethi Annomestig sy'n ddyledus mewn perthynas ag eiddo lletygarwch, hamdden a thwristiaeth mawr iawn, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. Mae hyn yn ategu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i fusnesau Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch a gyhoeddwyd yn flaenorol, a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 18 Mehefin 2020.

Datganodd Arweinydd y Cyngor fod y cyngor wedi derbyn hysbysiad ar 16 Mawrth 2021 fod Llywodraeth Cymru wedi estyn y cynllun rhyddhad ardrethi hwn ar gyfer y flwyddyn 2021/22. Roedd adroddiad diwygiedig wedi'i ddosbarthu a oedd yn nodi'r gwahaniaethau bach yn y canllawiau ar gyfer rhyddhad 2021/22 ac yn cynnwys argymhellliad diwygiedig i'r Cabinet fabwysiadu'r cynllun hwn ar gyfer 2020/21 a 2021/22.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Caiff manylion y cynllun, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad, eu nodi.

2) Caiff y Cynllun Rhyddhad Ardrethi a'r broses ymgeisio fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, eu mabwysiadu ar gyfer 2020/21.

## 108. Gwahardd y cyhoedd: -

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 109. Adroddiad Rheoli Diweddaredig Maes Awyr Abertawe

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau cyfredol ym Maes Awyr Abertawe oherwydd y materion hirsefydlog a amlygwyd gan yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn flaenorol ar 19 Mawrth 2020. Roedd yr adroddiad cyfredol hwn yn ceisio darparu sefyllfa ddiweddaredig, i ddarlunio'r cynnydd sylweddol a wnaed hyd yn hyn, gan gynnwys canlyniad adroddiad archwilio annibynnol a gomisiynwyd yn ddiweddar gan yr awdurdod.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

**110. FPR7 - Y diweddaraf am Raglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio Llywodraeth Cymru 2018-21.**

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn gofyn am gydymffurfio â Rheol Gweithdrefn Ariannol 7, "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf" i neilltuo ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.07 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 18 Mawrth 2021 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 23 Mawrth 2021 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 24 Mawrth 2021 |